

# NMC

## Rheoleiddio Cefnogaeth Dylanwad

Strategaeth y  
2020–2025



# Cynnwys

Neges gan Philip Graf, Cadeirydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	03
Neges gan Andrea Sutcliffe, Prif Weithredwr a Chofrestrydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	04
<b>01 Cyflwyniad – cipolwg ar ystrategaeth</b>	<b>05</b>
<b>02 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud</b>	<b>11</b>
<b>03 Cyd-destun strategol</b>	<b>15</b>
<b>04 Ymgynghori ar y strategaeth – gyda phwy y buom yn siarad a beth a glywsom</b>	<b>21</b>
Gan y cyhoedd	23
Gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio	23
Gan ein partneriaid gan gynnwys addysgwyr a rheoleiddwyr proffesiynol eraill	24
Gan gydweithwyr yr NMC	24
<b>05 Ein Themâu Strategol</b>	<b>29</b>
Gwella ac arloesi	31
Cymorth rhagweithiol	33
Rheoleiddiwr mwy gweladwy a hyddysg	35
Ymgysylltu a grymuso	37
Mewnwelediad a dylanwad	39
Sefydliad addas i'r dyfodol	41
<b>06 Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?</b>	<b>45</b>
Cyfeiriadau	47

## Neges gan Philip Graf, Cadeirydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym yn rheoleiddio rhai o'r gweithwyr proffesiynol mwyaf dibynadwy a gwerthfawr yn y DU: nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym yn rheoleiddio rhai o'r gweithwyr proffesiynol mwyaf dibynadwy a gwerthfawr yn y DU: nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Mae llawer ohonynt yn gofalu am bobl mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cefnogi menywod a'u teuluoedd yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth. Mae eraill yn ymwneud â hybu iechyd, gan gefnogi lles corfforol a meddyliol pob un ohonom. Mae rhai yn addysgu newydd-ddyfodiaid i'w proffesiynau, yn arwain gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau, neu'n datblygu gwybodaeth yn eu meysydd drwy ymchwil.

Rydym yn lansio ein strategaeth newydd yn 2020, sef Blwyddyn Ryngwladol y Nyrs a'r Fydwragedd. Fel mae'n digwydd, rydym yn lansio'r strategaeth mewn blwyddyn lle mae'r byd yn wynebu un o'i argyfyngau mwyaf ym maes iechyd y cyhoedd, wrth iddo frwydro yn erbyn effaith y coronafeirws (Covid-19). Mae canlyniadau hyn yn rhai pellgyrhaeddol, nid yn unig i faes iechyd a gofal ond i'r gymdeithas ehangach a'r economi fyd-eang. Nid yw nyrsio a bydwragedd erioed wedi bod yn bwysicach i les pobl ar draws y byd.

Mae gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) y fraint a'r cyfrifoldeb aruthrol o reoleiddio nyrsio a bydwragedd yn y DU. Bydd y ffordd rydym yn rheoleiddio yn hanfodol i ni wrth gyflawni ein gweledigaeth o "arferion nyrsio a bydwragedd diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a lles pawb".

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cydweithio â miloedd o bobl i greu'r strategaeth hon. Rwy'n ddiolchgar iawn i bobl sydd wedi cymryd rhan, wedi ein herio ac wedi ein hannog i fod yn uchelgeisiol. Gyda'n gilydd rydym wedi datblygu gweledigaeth o'n dyfodol a fydd yn helpu i'n harwain drwy heriau uniongyrchol y coronafeirws a pha bynnag heriau newydd y gallwn eu hwynebu dros y pum mlynedd nesaf. Ond yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw sut y gallwn drosi'r weledigaeth honno'n gamau gweithredu. Fel y dywedodd yr enwog Nelson Mandela:

"Dim ond breuddwyd yw gweledigaeth heb weithredu, dim ond lladd amser mae gweithredu heb weledigaeth. Gall gweledigaeth a gweithredu newid y byd."

**Philip**

## Neges gan Andrea Sutcliffe, Prif Weithredwr a Chofrestrydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ymunais â'r NMC ym mis Ionawr 2019 a chychwyn y broses o ddatblygu ein strategaeth ar gyfer 2020 – 2025 bron yn syth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy nghydweithwyr a minnau wedi teithio i bob cwr o'r DU yn dysgu beth mae pobl yn ei feddwl y mae'r NMC yn ei wneud yn dda, beth allwn ni ei wneud yn well a beth arall y gallwn ni ei wneud. Rydym hefyd wedi ymchwilio i'r amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol ac wedi edrych tua'r dyfodol i nodi'r heriau sydd

ar y gorwel. Mae ein cydweithwyr yn yr NMC wedi ychwanegu eu llais, gan dynnu sylw at sut y gallem wella'r sefydliad i fod yn fwy effeithiol.

Rydym wedi troi'r holl adborth cyfoethog hwn yn strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac mae gweddill y ddogfen hon yn crynhoi'r prif bwyntiau, yn egluro sut y

gwnaethom gyrraedd y pwynt yma; yn nodi ein themâu strategol; ac yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau bod y sefydliad yn addas ar gyfer y dyfodol, hyd yn oed yn wynebu heriau newydd na welwyd eu tebyg o'r blaen fel y coronafeirws (Covid 19).

Er ein bod bellach wedi cyfeirio at bandemig Coronafeirws yn ein strategaeth, nid oedd ar y gorwel wrth i ni ddatblygu ein blaenoriaethau. Efallai y byddwch yn cwestiynu a yw hyn yn gwneud y strategaeth yn annyls. Fy nadl i yw nac ydy, a dweud y gwir, mae'r coronafeirws yn tynnu mwy o sylw at yr angen am yr uchelgais strategol rydym wedi'i gosod yma.

Wedi dweud hynny, ni fyddwn yn gallu gwneud popeth rydym wedi'u nodi yn yr amserlenni a ragwelwyd gennym, a bydd angen i'r ffordd rydym yn gwneud pethau, yn enwedig o ran ymgysylltu â'n cydweithwyr a'n partneriaid, newid yn y tymor byr hefyd. Rydym eisoes wedi gwneud penderfyniadau i oedi neu arafu mentrau penodol. Pan fydd y pwysau presennol wedi ysgafnhau, bydd angen i ni bwysu a mesur ein rhaglen waith yn fwy manwl a chytuno ar gamau gweithredu newydd, a byddwn yn parhau i'w hadolygu'n gyson wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen, mae'n amlwg bod gennym eisoes sylfeini da i adeiladu arnynt, er enghraifft y safonau newydd o ran hyfedredd, ailddilysu a'r newidiadau i'n proses gofrestru. Mae pobl hefyd wedi croesawu ein hymagwedd newydd at addasrwydd i ymarfer, ac maent am fod yn sicr ein bod yn defnyddio egwyddorion dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddelio â phryderon mewn ffordd gyson ar gyfer cofrestryddion ac aelodau o'r cyhoedd.

Rydym yn clywed yn gyson bod pobl am i ni wneud mwy - defnyddio ein dirnadaeth a'n deallusrwydd i ddylanwadu ar yr amgylchedd sy'n newid ac sy'n heriol iawn y mae nyrsys,

bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gweithio ynddo, gan helpu i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu, anghydraddoldebau a pheryglon diogelwch.

Rwyf yn arbennig o awyddus i ni roi arweiniad a bod yn fodel rôl ar gyfer yr amgylcheddau gweithio cynhwysol a chadarnhaol sydd eu hangen ar bawb i roi o'u gorau. Byddwn yn sefyll yn erbyn diwylliant a gwahaniaethu gwael ym maes nyrsio a bydwragedd.

Mae'r ffordd rydym yn cyflawni ein dyheadau hefyd yn bwysig ac rydym wedi datblygu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau newydd fel sylfaen i'r strategaeth. Byddwn yn deg, yn garedig, yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol ym mhopeth a wnawn.

Mae'n bwysig iawn bod ein sefydliad yn addas ar gyfer y dyfodol hefyd. Mae ein cydweithwyr yn yr NMC wedi ein helpu i ddeall y gwaith y mae angen i ni ei wneud yn fewnol i gefnogi ein pobl i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. Mae'r ffordd y mae pawb wedi gweithio gyda'i gilydd mewn ymateb i effaith Covid-19 ar yr NMC i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwragedd yn fy argyhoeddi y gallwn gyflawni'r uchelgeisiau hynny. Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud hyn i gyd a chynnal ein ffi gofrestru ar y lefel gyfredol am gyhyd â phosibl.

Fel y gwelwch, mae gennym lawer o waith i'w wneud – ond rydym yn gwybod y bydd y gwaith caled yn werth chweil.

Rwyf mor ddiolchgar i bobl yn yr NMC a'r tu allan sydd wedi cyfrannu at y cyfeiriad strategol newydd hwn. Drwy gydweithio yn yr NMC a gyda'r rheini y mae'r hyn rydym yn ei wneud yn effeithio arnynt, rwy'n gwybod y gallwn gefnogi a chynnal rhagoriaeth ym maes nyrsio a bydwragedd er budd y cyhoedd.

**Andrea**

# 01

## Cyflwyniad – cipolwg ar y strategaeth



Diben yr NMC yw:

“Hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf ym maes nyrsio a bydwreigiaeth i ddiogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder yn y proffesiynau.”

Mae ein strategaeth ar gyfer 2020 – 2025 yn seiliedig ar symlrwydd ac eglurder tair rôl allweddol sy'n cefnogi ein diben: rheoleiddio, cefnogi a dylanwadu.

Rydym yn **rheoleiddio** er budd y cyhoedd, gan roi hyder i bobl yn ein proffesiynau. Er mwyn gwneud hyn yn dda, rydym yn credu bod angen ymwneud â'r cyhoedd yn gyson ac yn ystyrlon, a'u grymuso.

Caiff ein rôl reoleiddiol ei hatgyfnerthu pan fyddwn yn **cefnogi**'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid. Mae darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i bawb sy'n ymwneud â'n prosesau yn sicrhau canlyniadau gwell i bawb. Mae darparu arweiniad defnyddiol, mewn cydweithrediad â chyflogwyr ac addysgwyr, yn helpu ein proffesiynau i gynnal ein safonau proffesiynol uchel yn ymarferol. Mae'n helpu i gydbwyso ein ffocws eto ar arfer da o arfer gwael, gan atal niwed – nid dim ond ymateb iddo.

Bydd rhannu gwybodaeth o'n gwaith, a chydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, yn ein galluogi i **ddylanwadu**'n gadarnhaol ar gyd-destun dysgu a gofal. Erbyn 2025 dylai ein partneriaid ein hystyried fel llais gwerthfawr ac arbenigol, gan elwa o'r wybodaeth unigryw y gallwn ei chynnig.

Gyda'i gilydd bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein **gweledigaeth** o:

“SArferion nyrso a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a lles pawb.”



Mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn. Maent yn siapio sut rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

## Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth wraidd ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy a thryloyw.

## Rydym yn garedig

Rydym yn gweithredu'n garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu safbwyntiau, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

## Rydym yn cydweithio

Rydym yn gwerthfawrogi ein cysylltiadau (yn yr NMC a'r tu allan) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

## Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio a'n nod bob amser yw gwneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu, a'n gilydd.

# Strategaeth NMC ar dudalen

## Pwrpas

Hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf mewn nyrso a bydwreigiaeth - amddiffyn y cyhoedd, ennyn hyder y cyhoedd.

## Gweledigaeth

Arferion nyrso a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a llesiant pawb.

## Ein rôl

2020–25

### Rheoleiddio

- Cofrestr cywir a thryloyw
- Safonau proffesiynol ac addysgol cadarn
- Sicrhau rhaglenni addysg
- Ymateb yn deg i bryderon addasrwydd i ymarfer (FtP)

### Cefnogaeth

- Hyrwyddo **dealltwriaeth** – ein galwedigaethau a'n rôl
- Darparu **offer ymarferol** – help i sefydlu safonau
- **Cymorth emosiynol/ymarferol** – y bobl sy'n gysylltiedig â'n prosesau

### Dylanwad

- Hyrwyddo **amgylchedd gwaith proffesiynol** positif a chynhwysol
- Rhannu **data a mewnwelediad** i nodi risgiau niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog **arloesedd rheoliadol**

## Themau ar gyfer 2020–25

Gwelliant ac arloesi | Cefnogaeth ragweithiol | Gweledol a mwy gwybodus | Mwy apelgar a grymus | Mewnwelediad a dylanwad

## Gwerthoedd

Teg Caredig Cydweithredol Uchelgeisiol



# 02

Pwy ydym ni a beth  
rydym yn ei wneud



# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Nodir ein hamcanion yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd):

Diogelu'r cyhoedd yw amcan trosfwaol y Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

Mae'r trywydd y mae'r Cyngor yn ei ddilyn o ran ei amcan trosfwaol yn golygu dilyn yr amcanion canlynol –

- (a) diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
- (b) hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn hwn;
- (c) hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny

Mae ein cyfrifoldebau rheoleiddio yn cynnwys:

1. **Cadw'r gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a'r cymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr.
2. Gosod **gofynion yr addysg broffesiynol** sy'n cefnogi pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i gael lle ar ein cofrestr neu eu hanodi arni.
3. Siapio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr drwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes drwy aiddilysu.
4. Pan fydd pryderon difrifol yn cael eu codi ynghylch addasrwydd nyrs, bydwrraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer, **gallwn ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau gweithredu.**

Ein Cyngor yw ein corff llywodraethu, sy'n cynnwys pobl leyg ac eraill o'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Caiff ein gwaith ei oruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheoleiddwyr y proffesiynau iechyd a gofal. Rydym hefyd yn atebol i'r Senedd..

## Ystadegau'r NMC

Mwy na:

**660,000**  
o nyrsys

**37,000**  
o fydwagedd

**24,000**  
o weithwyr  
proffesiynol

**36,000**  
o weithwyr  
proffesiynol

**7,000**  
o gofrestryddion deul

**1,500**  
o gymdeithion nyrsio

Ar ein cofrestr

**Cyfanswm o fwy na**  
**700,000**



**69,000**  
o weithwyr  
proffesiynol

**20,000**  
o weithwyr proffesiynol  
yn ymuno â'n cofrestr  
bob blwyddyn

**31,000**  
o weithwyr  
proffesiynol  
o'r AEE

**77,000**  
o weithwyr  
proffesiynol  
o'r tu allan  
i'r AEE

**556,000**  
o weithwyr  
proffesiynol



Mae mwy na 700,000 o bobl  
ar ein cofrestr

Mae llai na 1% yn cael eu cyfeirio at ein proses addasrwydd i ymarfer



# 03

## Cyd-destun strategol



Mae'r cyd-destun strategol sy'n ein hwynebu yn heriol.

### Newid cyd-destun gofal

Mae anghenion cyfnewidiol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, gan gynnwys heneiddio a chyflyrau afiachedd niferus, ynghyd â datblygiadau meddygol a thechnolegol, yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio mewn lleoliadau newydd. Ar draws pedair gwlad y DU, mae genomeg a thechnolegau digidol yn dod yn rhan annatod o ymarfer clinigol. Mae mwy o waith tîm amlddisgyblaeth o fewn ac ar draws sectorau iechyd, gofal ac eraill.<sup>1</sup> Mae ymarferwyr yn gweithio mwy a mwy ar draws ffiniau proffesiynol traddodiadol.

Mae goblygiadau sylweddol i hyn o ran sut rydym yn rheoleiddio. Mae perygl y gallai'r broses reoleiddio fygu arloesedd, ond gallai methu gweithredu arwain at risg i ddiogelwch. Mae angen gweithio mwy ar y cyd â rheoleiddwyr eraill.

### Anghydraddoldebau iechyd

Mae gwahaniaethau systematig y gellir eu hosgoi mewn canlyniadau iechyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl.<sup>2</sup> Mae canlyniadau iechyd pobl ag anableddau, pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a'r rheini sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU yn waeth. Mae disgwyliad oes iach dynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn dirywio.<sup>3</sup> Mae rhai grwpiau hefyd yn ei chael hi'n fwy anodd cael gafael ar ofal, ac yn cael gofal gwaeth.<sup>4-5</sup> Mae angen i'n proffesiynau helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, ac fel eu rheoleiddiwr mae angen i'n safonau proffesiynol gefnogi hyn.

“Does dim modd cefnogi proffesiwn dan bwysau a darparu gofal da a diogel i gleifion wrth ynysu. Byddem yn awyddus i weithio gyda'r NMC ar y materion [hyn] ... ymdrech arbennig o bwysig wrth i ymarfer symud tuag at fodel o ofal tîm”

y Cyngor Meddygol Cyffredinol



## Diwylliant y gweithle

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr fel ased i'r sector iechyd a gofal. O'i gymharu â phoblogaeth y DU, mae gan ein proffesiynau fwy o bobl o gefndir lleiafrif ethnig a mwy sy'n uniaethu fel rhywun lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

Mae data o'r GIG yn Lloegr yn dangos nad yw staff o leiafrifoedd ethnig wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn swyddi uwch, maent yn fwy tebygol o fynd drwy'r broses ddisgyblu ffurfiol, ac yn fwy tebygol o gael eu haflonyddu, eu bwlio neu eu camdrin gan aelodau'r cyhoedd a chydweithwyr.<sup>6</sup> Maent hefyd yn llai tebygol na'u cyfoedion o gredu bod eu cyflogwr yn cynnig cyfle cyfartal o ran dilyniant neu ddyrchafiad yn eu gyrfa ac yn llai tebygol o gael eu penodi unwaith y byddant ar y rhestr fer.<sup>7</sup>

Ar yr un pryd, rydym yn gwybod bod cofrestryddion du a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio atom gyda materion nad ydynt, ar ôl ymchwilio, yn gofyn am gosb reoleiddiol. Yn ogystal â sicrhau bod yr achosion atgyfeirio a gawn yn briodol a heb fod yn wahaniaethol, rydym yn poeni am y cysylltiadau rhwng ymddygiad annerbyniol, diwylliant gwael a diogelwch cleifion.<sup>8</sup>

## Dysgu o fethiannau mawr mewn gofal

Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu gwersi o fethiannau mawr mewn gofal, er mwyn helpu i leihau'r perygl o niwed yn y dyfodol. Mae ymatebion gwael gan ddarparwyr a rheoleiddwyr hefyd yn dwysáu trallod y rhai sydd wedi dioddef.<sup>9</sup> Mae dulliau mwy soffistigedig ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth yn rhoi cyfleoedd i reoleiddwyr, sy'n gweithio ar y cyd, symud o ddull adweithiol i agwedd mwy rhagweithiol ac ataliol.

“Mae ymchwiliadau swyddogol ... wedi pwyntio at fethiant i glywed llais y claf... Felly mae'n rhaid i "gwell defnydd o ddeallusrwydd" fod yn berthnasol i adborth cleifion gymaint â thystiolaeth glinigol”

Llyfrgell Profiad Cleifion – y sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar gyfer profiad a chyfranogiad cleifio



## Pwysau a phrinder y gweithlu

Mae pwysau'r gweithlu ym maes nyrsio a bydwreigiaeth yn destun pryder mawr. Mae prinder yn bygwth ansawdd y gofal a'r amgylchedd dysgu, yn ogystal â lles staff. Mae nyrsys a bydwagedd mewn perygl cynyddol o ddioddef straen sy'n gysylltiedig â gwaith ac effeithiau gorweithio.<sup>10</sup> Mae gan bob un o bedair gwlad y DU waith ar y gweill i fynd i'r afael â'i heriau penodol, ond fel yr amlygwn yn yr adran ganlynol, mae awydd eang i'r NMC ddefnyddio ei fewnwelediad a'i ddylanwad i gefnogi'r ymdrechion hyn.

## Argyfwng newid hinsawdd a chynaliadwyedd

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar iechyd pobl, o fabandod i bobl hŷn, gydag effeithiau'n cynnwys tanfaethiad, clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, a marwolaethau oherwydd tywydd eithafol fel tanau gwyllt a thywydd poeth.<sup>11</sup> Mae'r gwasanaethau iechyd a gofal hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

Mae'r GIG yn unig yn gyfrifol am dros draean o holl allyriadau'r sector cyhoeddus.<sup>12</sup> Mae bron un rhan o bump o'r allyriadau hynny'n gysylltiedig â threfniadau teithio cleifion a staff.<sup>13</sup> Bydd angen i wasanaethau newid ac addasu er mwyn galluogi'r DU i gyrraedd ei thargedau newid yn yr hinsawdd. Mae angen i ni roi sylw manwl i effaith amgylcheddol ein gwaith rheoleiddio ein hunain.

“Mae'n rhaid i'r gwaith o gael cipolwg ar anghydraddoldebau systemig hefyd gynnwys anghydraddoldebau mewn cyfleoedd datblygu ar gyfer staff o gefndiroedd BAME.”

Gweithiwr Proffesiynol, Lloegr



## Newidiadau gwleidyddol

Rydym wedi gweld newidiadau sylweddol yn nhirwedd wleidyddol y DU, gyda Llywodraeth newydd mewn grym ers Rhagfyr 2019 a'n hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020. Mae Brexit a phwysau parhaus y gweithlu yn debygol o osod galwadau newydd ar ein prosesau cofrestru.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw llawer o'r gwaith o reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal, tra mae polisi a chyllid iechyd a gofal wedi'u datganoli i Gymru, Gogledd Iwerddon, a'r Alban. Mae angen cysylltiadau cryf arnom ar draws pedair gwlad y DU a gwerthfawrogiad o'r cyd-destunau gwleidyddol, y broses darparu gwasanaeth a'r gwaith o gynllunio gweithlu amrywiol.

## Diwygio dulliau rheoleiddio

Rydym yn croesawu'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei awgrymu o symud at ffurf fwy ymatebol ac atebol o reoleiddio.<sup>14</sup> Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i helpu i foderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## Bygythiadau newydd o ran clefydau

Mae'r coronafeirws newydd (COVID-19) yn dangos pa mor fregus yw systemau iechyd pan fyddant yn wynebu clefyd nad oes triniaeth ar gael ar ei gyfer yn syth. Mae'r twf mewn micro-organebau sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfotigau hefyd yn bryder cynyddol. Mae gan reoleiddwyr gyfrifoldeb penodol yng nghyd-destun argyfyngau iechyd. Mae angen i ni weithio gyda'n partneriaid ar draws y maes iechyd a gofal i warchod diogelwch y cyhoedd, dan arweiniad cyngor arbenigol ar iechyd y cyhoedd, gan ystyried iechyd a lles ein proffesiynau ar yr un pryd.

“[Helpu] i fynd i'r afael â'r argyfwng presennol o ran y gweithlu – mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y gofal a ddarperir a'r camgymeriadau a wneir”

Gweithiwr Proffesiynol, Lloegr



# 04

Ymgynghori ar  
y strategaeth –  
gyda phwy y buom  
yn siarad a beth a  
glywsom



Ar ddechrau 2019,  
aethom ati i roi  
rhaglen uchelgeisiol  
o ymgysylltu ac  
ymgynghori ar  
waith. Clywsom gan  
dros 10,000 o bobl  
ar draws nifer o  
fforymau gwahanol

- ymchwil annibynnol oedd yn cynnwys arolygon ar-lein a grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd, cofrestryddion, cydweithwyr NMC a grwpiau nad ydym yn clywed ganddynt yn aml
- archwiliad canfyddiadau â rhanddeiliaid allweddol ar draws pedair gwlad y DU
- dau arolwg ar-lein yn gofyn beth y dylem ganolbwyntio arno yn ein strategaeth. **Mae mwy o wybodaeth am yr hyn a glywsom ar ein gwefan**
- cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol a chyfarfodydd gyda llunwyr penderfyniadau a pholisiau ar draws pedair gwlad y DU.

Shaping the  
future **NMC**  
2020 ✓ 25

# Gyda phwy y gwnaethon ni siarad a'r hyn a glywsomd

## Gan y cyhoedd

- Defnyddio eich dylanwad i dynnu sylw at lle mae ffactorau yn y gweithle yn peryglu gofal da a chymryd camau lle bu methiannau.
- Codi eich proffil i gynyddu ein hyder ym maes nyrsio a bydwreigiaeth a sicrhau ein bod yn gwybod beth y gallwn ei wneud os ydym yn dod ar draws gofal gwael.
- Cyflawni eich gwaith rheoleiddio craidd mewn ffyrdd sy'n cefnogi eich proffesiynau i ymgysylltu'n gadarnhaol ym maes dysgu, gwella a diogelwch.
- Bod yn fwy cynhwysol a hygyrch o ran pwy rydych yn clywed ganddynt ac yn ymgysylltu â nhw – gan wrando ar fwy na dim ond y rhai â'r lleisiau uchaf.

## Gan nyrsys, bydwreagedd a chymdeithion nyrsio

- Helpu ni i ddarparu'r gofal rydym ni i gyd ei eisiau drwy godi ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n rhoi gofal da yn y fantol.
- Meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o'n gwaith a'n proffesiynau.
- Parhau i wella eich gwasanaethau i ddatrys pryderon yn gyflym a sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig – gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd – yn gallu cael gafael ar gymorth effeithiol.
- Bod yn fwy amlwg a gwneud mwy i gysylltu â ni y tu allan i Lundain ac mewn ystod ehangach o leoliadau lle'r ydym yn gweithio.



## Gan ein partneriaid gan gynnwys addysgwyr a rheoleiddwyr proffesiynol eraill

- Parhau i gryfhau eich cysylltiadau â ni, gan ddefnyddio ein harbenigedd perthnasol, fel y gallwn gyflawni nodau cyffredin yn well.
- Manteisio i'r eithaf ar ansawdd a gwerth eich prosesau rheoleiddio craidd, gan gynnwys aiddilysu a sicrhau ansawdd addysg.
- Gwella a rhannu eich data, a defnyddio'r hyn rydym yn ei wybod i ategu eich safbwyntiau eich hun.

## Gan gydweithwyr yr NMC

- Sicrhau bod gennym y sgiliau, y strwythur sefydliadol, yr adnoddau a'r prosesau cywir i gyflawni ein strategaeth.
- Gwneud gwell defnydd o'r data a'r wybodaeth sydd gennym fel ein bod yn datblygu llais blaenllaw yn y sector ac yn helpu i wella ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth.
- Sicrhau bod pobl o bob cefndir yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu a symud ymlaen yn ein sefydliad.
- Hyrwyddo darlun cyflawn o'n gwaith eang ei gwmpas, gan symud y ffocws y tu hwnt i addasrwydd i ymarfer.
- Blaenoriaethu'n drylwyr, gan sicrhau bod pob newid yn cael ei reoli a'i ymgorffori'n effeithiol.

## Parhau i wella eich gwaith rheoleiddio craidd

Ein prif flaenoriaeth yw cyflawni ein gwaith rheoleiddio craidd yn dda. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar ailddilysu, ar y broses o gyhoeddi ein data cofrestru, ac ar y cyfeiriad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn rydym yn ei ddilyn o ran addasrwydd i ymarfer.

Cafwyd rhywfaint o adborth negyddol am brofiad pobl o fod yn rhan o wrandawiaidau a gwneud ymholiadau a chwynion. Teimlai llawer y dylai'r broses ailddilysu fod yn fwy trwyadl, y broses sicrhau ansawdd addysg yn fwy cyson, ac y dylid cynnig lleoliadau hyfforddi mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau gan gynnwys gofal cymdeithasol. Roedd addysgwyr a chyflogwyr yn ein hannog i'w hystyried fel ffynhonnell arbenigedd a all ein helpu i ddeall materion cyfredol a nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

Datgelodd yr ymatebion i'n hymgyngoriad lawer o gamddealltwriaeth a dryswch ymhlith aelodau o'r cyhoedd a rhai o'r bobl ar ein cofrestr am yr hyn a wnawn. Mae'n bwysig bod pobl yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl o'u gofal, beth y gall yr NMC ei wneud ac na all ei wneud, a sut i godi pryderon os oes angen.

“Bod yn dryloyw, yn ymatebol ac yn atebol i'r cyhoedd, y mae angen i'r NMC eu sicrhau bod cofrestryddion yn addas i ymarfer”

Gweithiwr Proffesiynol, Lloegr



## Hyrwyddo dealltwriaeth well o waith nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio

Nid oes y fath beth â nyrs, bydwaig neu gydymaith nyrsio nodweddiadol. Mae ein cofrestryddion yn amrywiol ac maent yn dilyn llwybrau gwahanol i gyrraedd ein proffesiynau. Dylid adlewyrchu'r amrywiaeth hon fwy yn ein ffyrdd o weithio, ein dulliau cyfathrebu, ein delweddau, ein polisiau a'n safonau. Ar yr un pryd, mae angen i ni hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r bobl ar ein cofrestr yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys y gwahaniaethau rhwng rolau yn ogystal â lefel y proffesiynoldeb a'r hyfforddiant arbenigol sydd ganddynt.

“Mae angen i'r cyhoedd fod yn fwy ymwybodol bod cofrestryddion yn cael eu rheoleiddio gan gorff proffesiynol. Mae llawer yn ein hystyried yn 'ddim ond nyrsys' ac nid oes ganddynt unrhyw syniad o'r gofynion hyfforddi a'r datblygiad proffesiynol parhaus sydd eu hangen i ni barhau fel ymarferwyr”

Gweithiwr Proffesiynol, Cymru



## Cefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddarparu gofal da

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eisiau i ni wneud mwy i'w cefnogi i ymarfer yn dda, yn enwedig pan fyddant yn codi pryderon am ddiogelwch neu'n ymwneud

ag achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'r cyhoedd hefyd yn teimlo y dylai ein gweithwyr proffesiynol gael digon o gefnogaeth i gyflawni eu gwaith caled. Mae'r argraff mai ni yw'r “plismon” yn dod i'r amlwg yn aml ymhlith pobl ar ein cofrestr, er ei fod yn effeithio ar lai nag un y cant o gofrestryddion bob blwyddyn

“Rwy'n pwysleisio/adleisio'r hyn a ddywedodd y cyhoedd, ‘Peidiwch â phlisma safonau gofal yn unig, helpwch i'w gwella”

Gweithiwr Proffesiynol, Lloegr



## Bod yn fwy gweladwy a chynnwys ystod ehangach o bobl yn eich gwaith

Mae llawer o bobl yn ein hystyried yn gorff sy'n canolbwyntio ar Loegr - neu Lundain - ac maent am i ni sicrhau bod unigolion a sefydliadau o bob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio yn y GIG, ac yn y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Maent am i ni fod yn gynhwysol yn ein holl waith ac nid dim ond dibynnu ar yr un bobl neu'r un llwybrau (e.e. siarad â'r rhai ar lefelau uwch yn unig neu ymgysylltu ar-lein).

Mae angen i ni wrando ar grwpiau amrywiol – pobl sy'n uniaethu â gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â sefydliadau sy'n eu cynrychioli – a'r rhai nad ydynt, yn draddodiadol, yn ymwneud â'n gwaith

“Sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu yn gynhwysol ac yn cynnwys y rheini sy'n adlewyrchu cymysgedd y boblogaeth”

Gweithiwr Proffesiynol, Lloegr



Roedd y rheini o'r gwledydd datganoledig yn awyddus i nodi gwahaniaethau o ran systemau a pholisi, ond roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen am gysondeb rheoleiddiol ar draws y DU a'i rhanbarthau.

Roedd awydd eang i ni feithrin perthynas agosach â'r myfyrwyr a fydd yn gofrestryddion i ni yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi cipolwg i ni ar brofiadau myfyrwyr o'u haddysg ac anghenion cynnar eu gyrfa. Gall y cipolwg hwn helpu i amddiffyn pobl rhag gadael y proffesiwn yn gynnar. Gallai hefyd helpu i greu barn fwy cadarnhaol am reoleiddio a'r cymorth y gallai ei roi iddynt.

“ymudwch [canfyddiadau o'r hyn a wnewch] oddi wrth y canfyddiad o ofn 'colli eich swydd'. Rwy'n gwybod eich bod yn poeni, ond rydych yn codi ofn ar bobl! Dylech oleuo ac annog staff a myfyrwyr!”

Myfyriwr nyrsio, Lloegr





# 05

## Ein Themâu Strategol

Bydd ein pum thema strategol yn llywio'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ein gwaith a'i wneud fesul cam, yn ogystal â buddsoddi o'r newydd mewn pobl ac adnoddau eraill. Maent fel a ganlyn:

**01** Gwella ac arloesi

---

**02** Cymorth rhagweithiol i'n proffesiynau

---

**03** Mwy gweladwy a hyddysg

---

**04** Ymgysylltu a grymuso'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid

---

**05** Mewnwelediad a dylanwad





# 01 Gwella ac arloesi

Gwella ac arloesi ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio, gan ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, a sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r hyn a wnawn i'r cyhoedd.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae ein cyfrifoldebau rheoleiddio statudol yn unigryw i ni, ac yn sylfaen i bopeth a wnawn. Roedd eu gwneud yn dda yn brif flaenoriaeth i'r rhai yr ymgysylltwyd â nhw.

## Yr hyn rydym yn adeiladu arno

- Rydym wedi symleiddio ac awtomeiddio llawer o'n prosesau cofrestru, gan ei gwneud yn llawer mwy syml i'r rhai sy'n bodloni ein safonau i ymuno ac ailymuno â'n cofrestr.
- Rydym wedi symleiddio ein gofynion i ymgeiswyr tramor ymuno â'n cofrestr, wedi gwella ein gwybodaeth ategol ac wedi gwneud ein proses yn gyflymach ac yn fwy effeithlon
- Rydym yn arwain arloesedd o ran rheoli pryderon addasrwydd i ymarfer, gan annog datrys achosion addas yn gynnar a dilyn dull sy'n ysgogi mewnwelediad ac adfer lle bynnag y bo'n bosibl.

## Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Bydd gennym brosesau, cymorth a chyngor hawdd eu cyrraedd ar gyfer y rheini sy'n rhyngweithio â ni.
- Bydd symud ymgeiswyr tramor â chymwysterau addas i weithlu nyrsio a bydwreigiaeth y DU yn fwy syml, ond byddwn yn parhau i sicrhau arfer diogel ac effeithiol.
- Bydd dysgu am effaith ffactorau cyd-destunol yn cael ei nodi a'i rannu.
- Bydd gwerth ein cofrestr i'r cyhoedd, cofrestryddion a chyflogwyr yn cael ei wella, gyda gwybodaeth fwy hygyrch, cywir a defnyddiol.

## Ein cynlluniau newydd

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- cefnogi llwybrau newydd o ansawdd uchel i gofrestru ar gyfer pobl sy'n gallu bodloni ein safonau er mwyn hwyluso mynediad i'r gofrestr
- parhau i wella'r cymorth rydym yn ei roi i'n hymgeiswyr tramor a'r rhai sy'n eu cefnogi, gan ddatblygu sut rydym yn profi ein model cymhwysedd yn unol â'n safonau hyfedredd newydd
- ymchwilio'n systematig i effaith ffactorau cyd-destunol mewn achosion addasrwydd i ymarfer, gan barhau i ganolbwyntio ar atebolrwydd proffesiynol unigol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau canlyniadau tecach
- gwella ein hymagwedd at ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer, i wella'r profiad a'r gefnogaeth i'r rhai dan sylw, boed hynny'n weithwyr proffesiynol neu'r cyhoedd.



# 02 Cymorth rhagweithio

Galluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, gan ragweld a siapio arferion nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol.

## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae angen i'n safonau adlewyrchu ac ymateb i'r amgylchedd heriol sy'n newid yn gyflym lle mae ein cofrestryddion yn gweithio.
- Mae gan bobl anghenion clinigol mwy cymhleth sy'n cael eu llywio fwyfwy gan bwy ydynt a lle maent yn byw. Mae angen i'n cofrestryddion gael eu harfogi i ddiwallu'r anghenion hynny yn well.
- Mae llwybrau gofal cymhleth ac achosion o drosglwyddo rhwng gwasanaethau yn gofyn am lefelau uwch o brosesau gwneud penderfyniadau clinigol gan dimau o weithwyr sydd â chymysgedd o sgiliau.

## Yr hyn rydym yn adeiladu arno

- Cod ar ei newydd wedd - yn nodi'r safonau y gall pobl eu disgwyl gan y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.
- Mae ein safonau nyrsio a bydwreigiaeth newydd yn llawer mwy uchelgeisiol ac yn canolbwyntio mwy ar y dyfodol na'r safonau blaenorol, gan osod safon uwch a datblygu gweithwyr proffesiynol mwy hyblyg sy'n gallu ymarfer mewn cyd-destun sy'n mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth.
- Pedair blynedd o aiddilysu llwyddiannus, y broses sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i fyfyrio ar eu hymarfer a sut mae'r cod yn berthnasol i'w gwaith o ddydd i ddydd
- Wrth groesawu cymdeithion nyrsio ar ein cofrestr, rydym wedi gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac addysgwyr i sicrhau amgylchedd cefnogol ar gyfer eu proffesiynoldeb.

## Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Mae ein safonau rheoleiddio, ein haddysg a'n proses aiddilysu yn cefnogi ein gweithwyr proffesiynol i gwrdd yn well ag anghenion cyfnewidiol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac addasu iddynt.
- Gall ein gweithwyr proffesiynol gael gafael ar adnoddau a chanllawiau defnyddiol drwy gydol eu gyrfa, gan eu helpu i gyrraedd ein safonau o ran ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd, er enghraifft o dechnolegau newydd a rhai sy'n datblygu.

## Ein cynlluniau newydd

- Dull newydd a mwy dynamig o ddatblygu safonau proffesiynol, er mwyn ymateb yn gyflym i heriau proffesiynol newydd, gan gynnwys adolygu'r Cod.
- Cyfres newydd o safonau hyfedredd uchelgeisiol ar ôl cofrestru ar gyfer nyrsys cymunedol ac iechyd y cyhoedd, ac adolygiad cynhwysfawr o arferion nyrsys uwch gan gynnwys ystyried a oes angen rheoleiddio ai peidio.
- Cyhoeddi cyfres o egwyddorion cyffredin i gefnogi gwell preceptorïaeth ar gyfer nyrsys a bydwreagedd sydd newydd gymhwyso.
- Atgyfnerthu ein hagwedd at aiddilysu, gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'n gwerthusiad.



# 03 Rheoleiddiwr mwy gweladwy a hyddysg

Sicrhau ein bod mewn cysylltiad agosach â'n proffesiynau, eu cyflogwyr a'u haddysgwyr fel y gallwn reoleiddio gyda dealltwriaeth ddyfnach o amgylchedd dysgu a gofal pob un o wledydd y DU.

## Pam mae hyn yn bwysig

Er mwyn gwneud penderfyniadau da a gwybodus rydym yn cydnabod bod angen i ni ddeall yn well ehangder ac amrywiaeth yr ymarfer – tri phroffesiwn, sawl rôl, pedair gwlad a'r nifer o leoliadau y mae hyn yn digwydd ynddynt. Mae rhai cofrestryddion yn ein hystyried fel sefydliad 'pell' ac 'anodd ei gyrraedd'. Maent yn teimlo ein bod yn siarad ar lefel sy'n rhy uchel am ein proffesiynau ac nad ydym bob amser yn adlewyrchu eu profiadau ymarfer.

## Yr hyn rydym yn adeiladu arno

- Rydym wedi datblygu ein gwasanaeth cyswllt cyflogwyr, sy'n sicrhau cyswllt rheolaidd rhwng darparwyr iechyd a gofal a'r NMC, yn arbennig dros ymchwilio a datrys pryderon, ond nid dim ond hynny.
- Cafwyd adborth cadarnhaol am raddau ac ansawdd ein hymwneud â gwahanol grwpiau yn ein rhaglenni gwaith mawr. Mae pobl eisiau gweld ein harferion gorau yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn eang.
- Rydym wedi nodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU gyda'r nod o gryfhau cydberthnasau, gwelededd a gweithio mewn partneriaeth.

## Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Cyfrannwr gwerthfawr ac adeiladol at ddatblygu polisiau ac arferion lleol/rhanbarthol/cenedlaethol ym maes iechyd a gofal.
- Byddwn yn gallu gwerthuso effaith ein gwaith rheoleiddio ar wahanol grwpiau o gofrestryddion, wedi'i ategu â mwy o ddealltwriaeth o'r ystod o amgylcheddau y maent yn gweithio ynddynt.
- Bydd y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cael ymatebion mwy prydlon, sy'n sensitif i'w hanghenion unigol.

## Ein cynlluniau newydd

- Byddwn yn adolygu ac yn datblygu ein presenoldeb mewn ardaloedd lleol ar draws rhanbarthau Lloegr yn ogystal â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan barhau i ganolbwyntio ar ddarparwyr ac ymestyn ein rhwydweithiau sy'n seiliedig ar leoliadau ymhellach.
- Byddwn yn datblygu perthynas agosach â'n cofrestryddion yn y dyfodol – myfyrwyr yn y DU a darpar ymgeiswyr tramor.
- Byddwn yn cryfhau ein ffocws ar wasanaeth i gwsmeriaid, yn defnyddio adnoddau awtomeiddio yn well, ac yn defnyddio mesur cynhwysfawr o fodlonrwydd cwsmeriaid i ysgogi gwelliant.



# 04 Ymgysylltu a grymuso

Ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid, a'u grymuso. NMC sy'n ddibynadwy ac yn ymatebol, gan fynd ati i feithrin dealltwriaeth o'r hyn rydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud dros bobl.

## Pam mae hyn yn bwysig

- Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau bod yn rhan o'n gwaith yn fwy rheolaidd ac yn gynharach. Nid ydynt eisiau ein gweld yn cydweithio ac ymgysylltu dim ond er mwyn cydweithio ac ymgysylltu – mae angen i ni rymuso pobl i gymryd rhan ystyrlon drwy sicrhau eu bod yn deall yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallant lywio a dylanwadu ar ganlyniadau.
- Rhaid i ni glywed gan grwpiau amrywiol – pobl a sefydliadau sy'n gweithio mewn ystod o wahanol rolau a lleoliadau, yn ogystal â'r rhai y mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn berthnasol iddynt. Dylem ymdrechu i glywed gan y rhai nad ydynt, yn draddodiadol, wedi bod yn rhan o'n gwaith o bosibl, a chydweithio â sefydliadau eraill lle gallwn er mwyn cyrraedd y bobl hyn.

## Yr hyn rydym yn adeiladu arno

- Dysgu o brofiadau llwyddiannus o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu parhaus – er enghraifft, wrth ddatblygu safonau hyfedredd newydd.
- Cyfarfodydd rheolaidd o ystod o grwpiau cynghori sefydlog i lunio ein gwaith.
- Uwch arweinwyr yn ein sefydliad sydd â chyfrifoldeb penodol dros gefnogaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Perthynas gryfach a mwy ystyrlon â'n partneriaid ar draws y pedair gwlad.
- Rydym wedi mynegi'n glir yr hyn y mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei olygu, mewn ffordd lle gall y cyhoedd, ein proffesiynau, ein cydweithwyr ac eraill ei ddefnyddio i'n dal ni'n atebol.
- Mae'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid yn cael blas ar gyd-gynhyrchu fel ein hymagwedd arferol at ddatblygu safonau a pholisi.
- Sicrhau bod y cyhoedd yn deall ein proffesiynau a'n rôl yn well.

## Ein cynlluniau newydd

- Dull mwy systematig ac wedi'i dargedu o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y pedair gwlad.
- Cytuno ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein holl weithgarwch rheoleiddiol a'i ymgorffori, gan brofi ein cynnydd drwy raglen ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cyflwyno ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd i helpu pobl i ddeall yr hyn rydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud.



# 05 Mewnwelediad a dylanwad

Dysgu o ddata ac ymchwil i wella'r hyn rydym yn ei wneud a gweithio ar y cyd i rannu gwybodaeth yn gyfrifol er mwyn helpu i wella'r system iechyd a gofal ehangach.

## Pam mae hyn yn bwysig

- Bydd yr wybodaeth sy'n deillio o'n gwaith, ynghyd ag ymchwil a thystiolaeth o ffynonellau eraill, yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, ac yn tynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar allu gweithwyr proffesiynol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Mae'n bwysig i'n partneriaid ein bod nid yn unig wedi ymrwymo i gydweithio, ond hefyd yn fedrus ac yn alluog i chwarae rôl gadarnhaol ac ychwanegu gwerth mewn gweithgarwch cydweithredol.

## Yr hyn rydym yn adeiladu arno

- Mae ein Huned Gwybodaeth Reoleiddiol, sy'n asesu ac yn dadansoddi data o ffynonellau mewnol ac allanol, er mwyn gwella gwybodaeth am achosion addaswydd i ymarfer a thynnu sylw at risgiau a allai fod angen gweithredu rheoleiddiol i fynd i'r afael â nhw
- Cydweithio agosach â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill i nodi sefyllfaoedd a allai beri risg barhaus i'r cyhoedd neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft drwy sefydlu'r Protocol Pryderon Newydd yn Lloegr.
- Ein gwaith gyda rheoleiddwyr eraill i ddatblygu ffyrdd cyffredin o gasglu a dadansoddi data, er enghraifft, casglu gwybodaeth am faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant o ran cydraddoldeb.
- Ymdrech gydweithredol ddwys i sefydlu cofrestr dros dro ar gyfer argyfwng Covid-19 yn llwyddiannus ac yn gyflym gyda chytundeb y pedair gwlad, Cyngor y Deoniaid, y Colegau Brenhinol a'r undebau.

## Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Gwybodaeth hygyrch, gywir, ddefnyddiol a mwy perthnasol ar ein cofrestr.
- Mae ein partneriaid yn ein hystyried fel llais blaenllaw ac yn elwa ar yr wybodaeth a'r syniadau defnyddiol rydym yn eu cyflwyno gerbron y bwrdd ar faterion fel proffiliau gyrfa a ffactorau risg cyd-destunol.
- Bydd gennym hanes o siarad dros sicrhau amgylchedd gweithio iach, cynhwysol a chadarnhaol at gyfer ein proffesiynau.

## Ein cynlluniau newydd

- Cyhoeddi data ac ystadegau mewn ffyrdd arloesol sy'n ychwanegu gwerth at y system iechyd a gofal ehangach, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar 'Gyflwr Nyrsio a Bydwreigiaeth mewn Addysg ac Ymarfer' i gynnig cipolwg ar y cyd-destun y mae ein proffesiynau yn gweithio ac yn hyfforddi ynddo.
- Gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ac eraill i lywio gwelliannau i'n fframwaith deddfwriaethol.
- Gwerthuso effaith ein gwaith ar bobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol a gweithio gydag eraill i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.



## Sefydliad addas i'r dyfodol

Mae gan ein nodau strategol oblygiadau sylweddol o ran sut rydym yn gweithredu fel sefydliad. Byddwn yn sicrhau bod ein diwylliant, ein galluoedd a'n seilwaith yn cyd-fynd â'n nodau strategol newydd.

### Ein gwerthoedd a'n hymddygiad newydd

Bydd ein gwerthoedd a'n hymddygiad yn dylanwadu ar y gwaith a wnawn a sut rydym yn ei wneud. Byddant hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau gwaith cydweithwyr yr NMC. Byddwn yn gwreiddio ein gwerthoedd a'n hymddygiad newydd yn ein prosesau recriwtio a rheoli pobl.



## Galluoedd gwell

### Strategaeth a dadansoddi

Bydd gwella galluoedd dadansoddi yn hanfodol er mwyn cyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus. Byddwn yn coladu ac yn gwerthuso deunydd yn rheolaidd ynghylch dyfodol gwasanaethau darparu iechyd a gofal, rheoleiddio ac addysg broffesiynol, er mwyn llywio penderfyniadau ein Cyngor a thîm yr NMC.

Mae angen i ni wella ansawdd a pha mor ddefnyddiol yw ein data gan gynnwys gallu ein partneriaid i ddadansoddi ein data eu hunain.

## Ymarfer Proffesiynol

Mae gennym gofrestryddion NMC fel cydweithwyr a chynghorwyr, ac maent yn chwarae rôl allweddol yn ein gwaith rheoleiddio – fel panelwyr, ac adolygwyr addysg, er enghraifft. Bydd cael ein gweld yn defnyddio gwybodaeth arbenigol gadarn am ein proffesiynau yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio ac yn gwella hyder ein proffesiynau yn ein gwaith. Byddwn yn edrych o'r newydd ar sut rydym yn cael gafael ar wybodaeth arbenigol a'i defnyddio wrth edrych ar y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio yn yr NMC.

### Cymorth ar gyfer dysgu a gwelliant parhaus

Mae angen i ni wella profiad cwsmeriaid mewnol ac allanol. Byddwn yn datblygu gallu pob un o'n cydweithwyr er mwyn parhau i ddysgu a gwella eu ffordd o weithio.

### Pobl

Rydym am i'n cydweithwyr fod yn falch eu bod yn gweithio i'r NMC. Byddwn yn sicrhau bod gan bob cydweithiwr gyfle cyfartal i ddatblygu ei sgiliau a'i yrfa. Byddwn yn defnyddio meincnodau allanol awdurdodol (fel y Safon Cydraddoldeb Hiliol yn y Gweithle, a Stonewall) i olrhain ein cynnydd fel cyflogwr.

“ydym eisiau i'n cydweithwyr fod yn falch o weithio i'r NMC. Byddwn yn sicrhau bod gan bob cydweithiwr gyfle cyfartal i ddatblygu ei sgiliau a'i yrfa”



## Ein seilwaith newydd

### Cynllunio a llywodraethu sefydliadol newydd

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau strategol. Mae gennym strwythur newydd sydd wedi'i gynllunio i wella ein heffaith reoliadol a'n heffaith ehangach. Caiff ei gefnogi gan y strwythur llywodraethu priodol, i wella ansawdd a phrydlondeb gwneud penderfyniadau, a sicrhau goruchwyliaeth gorfforaethol o'r hyn a ddarperir.

### Llety

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio o dri safle yn Llundain ac un yng Nghaeredin; rydym hefyd yn cynnal gwrandawiadau yng Nghaerdydd a Belfast.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau llety a fydd yn cefnogi ein strategaeth, gan ddarparu amgylcheddau modern i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, gan ddysgu gwersi

- lwyddiant gweithio gartref yn ystod y cyfyngiadau symud yn sgil y coronafeirws ac yn hwyluso'r broses
- o ymgysylltu â phartneriaid.

### Technoleg

Byddwn yn parhau i wella ein technoleg, fel bod gan ein cydweithwyr yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithio'n effeithlon. Byddwn yn moderneiddio'r systemau sy'n cefnogi ein gwaith rheoleiddio, er mwyn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth da i gwsmeriaid, a chaniatáu i ni storio a defnyddio ein data i ddarparu gwybodaeth.

### Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyfrifol ac i weithredu'n gynaliadwy yn ein holl weithgareddau:

- Rydym yn ymddwyn yn foesebol ac yn unol â'n gwerthoedd. Mae ein polisiau'n amlinellu ein hymrwymiad i arferion gweithio moesegol a hawliau dynol, fel y polisi Caethwasiaeth Fodern<sup>15</sup> a'r polisi buddsoddi moesegol.<sup>16</sup>
- Rydym yn hyrwyddo gwerthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y bobl ar ein cofrestr, y rhai y maent yn gofalu amdanynt a'n staff yn yr NMC. Credwn fod cyfle cyfartal yn hanfodol er mwyn i bobl wneud eu gwaith yn dda.
- Rydym yn ymwybodol o les meddyliol a chorfforol y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, a'n cydweithwyr.
- Rydym yn cydnabod effaith ddifrifol yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, a'i effeithiau ar iechyd y cyhoedd yn y DU a ledled y byd. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n gynaliadwy, a chefnogi'r rheini sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal i wneud hynny, yn enwedig o ran lleihau allyriadau carbon. Rydym yn cydnabod y bydd cymryd camau ystyrlon i ddiogelu'r amgylchedd, ac i liniaru newid yn yr hinsawdd, hefyd o fudd i iechyd a lles pobl.

Byddwn yn datblygu cynllun cynaliadwyedd gydag amcanion clir, a fydd yn ymgorffori'r ffordd rydym yn gweithio fel rheoleiddiwr. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau fel buddsoddi, caffael, teithio, ynni a gwastraff. Bydd ein cynllun ar gael ar ein gwefan a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am ein cynnydd drwy ein hadroddiad blynyddol.

## Llunio cynllun pum mlynedd

Rydym yn glir ynghylch llawer o'r gwaith y mae angen ei wneud i gyflawni ein strategaeth, ond mae rhai meysydd a fydd yn cymryd mwy o amser i'w cwmpasu'n llawn. Rydym yn ymwybodol bod angen i'n cynlluniau fod yn hyblyg er mwyn ystyried amgylchiadau allanol dros y cyfnod y mae'r strategaeth yn ei gwmpasu. Er enghraifft, y pandemig coronafeirws, sydd eisoes yn cael effaith sylweddol.

Rydym yn llunio golwg pum mlynedd ar y gwaith sydd o'n blaenau. Mae'r graffig isod yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r cynlluniau cyfredol. Mae mwy o fanylion yn ein cynllun busnes corfforaethol blynyddol.



### Blwyddyn 01

Gwelliannau i asesiadau tramor  
System gofrestru newydd  
Dull newydd o addasrwydd i ymarfer yn cael ei weithredu'n llawn  
Ymateb i ddiwygio rheoleiddiol  
Datblygu safonau ôl-gofrestru  
Sefydlu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad newydd  
Strwythur newydd ar gyfer y sefydliad  
Ymgorffori prosesau ymgysylltu rhwng y pedair gwlad

### Blwyddyn 02

Prosesau sicrhau ansawdd seiliedig ar risg newydd ar gyfer rhaglenni addysg  
Cytuno ar ymagwedd at arfer ymlaen llaw  
Fframwaith newydd ar gyfer ymgysylltu'n lleol  
Datblygu gwefan newydd  
Cyflwyno cynllun cynaliadwyedd yr amgylchedd  
Cytuno ar siarter ymgysylltu â'r cyhoedd

### Blwyddyn 03-05

System reoli newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer  
Cod wedi'i adolygu yn y broses gyd-gynhyrchu a chyflwyno  
Cytuno ar dull newydd o ail-ddilysu a'i gyflwyno  
Cyflwyno dull o ddatblygu arferion y cytunir arno  
Adroddiad Blynyddol ar gyflwr Nyrsio a Bydwreigiaeth  
Arolwg myfyrwyr a gyflwynwyd  
Ymgynrch gwybodaeth gyhoeddus

# 06

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?

### Bydd pobl yn ein hystyried yn sefydliad:

- effeithiol a theg o ran ein gwaith rheoleiddio craidd, sy'n gwneud penderfyniadau cadarn, cymesur ac amserol gan atgyfnerthu hyder yn ein proffesiynau
- sy'n cefnogi ein proffesiynau i gynnal safonau ymarfer uchel, ac yn rhagweld eu hanghenion yn y dyfodol
- seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ein gwybodaeth ein hunain a phobl eraill i werthuso ein gwaith, a chyfrannu'n effeithiol at waith cydweithredol sy'n ymwneud â dysgu a gwella ehangach
- hygyrch, gweladwy a chysylltiedig – cysylltiadau cryf ar lefel genedlaethol a lleol a chanddo'r arbenigeddau a'r sectorau sy'n llywio ein dull rheoleiddio

- sy'n darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid, yn ymatebol ac yn garedig wrth ryngweithio â phobl sy'n ymwneud â'n gwaith
- sy'n gydweithiwr gwerthfawr, yn enwedig gyda'r partneriaid hynny megis addysgwyr a chyflogwyr, yr ydym yn dibynnu arnynt i'n helpu i gynnal safonau ymarfer uchel
- sy'n mynd ati i gefnogi'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid i ddeall ac i lunio'r hyn a wnawn
- a chanddo'r diwylliant, y sgiliau a'r adnoddau i gyflawni ei nodau strategol.

Bydd ein cynlluniau corfforaethol yn nodi rhagor o fanylion ar fesur ein cynnydd wrth gyflawni ein strategaeth. Byddwn yn olrhain cyfuniad o fetrigau perfformiad, canfyddiadau, tystiolaeth tymor hwy, a chyflwyno cerrig milltir ar lefel rhaglen er mwyn cael darlun cyflawn o'n cynnydd.

Rydym yn croesawu'r adolygiad rheolaidd o'n gwaith gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) a byddwn yn parhau i ddefnyddio safbwyntiau'r PSA i ddysgu a gwella.

### Mae rhai o'r mesurau rydym yn rhagweld y byddwn yn eu defnyddio yn cynnwys:

- Dangosyddion perfformiad sy'n ein helpu i fonitro ansawdd ac amseroldeb ein prosesau rheoleiddio craidd.
- Cyflwyno adroddiadau ar fudd-daliadau ar lefel rhaglen.
- Ymchwilio a gwerthuso ein heffaith yn fwy cadarn.
- Mesurau profiad cwsmeriaid ac archwilio canfyddiadau.
- Tystiolaeth ar ymgysylltu â rhanddeiliaid – pwy, ble, pryd a sut.
- Dadansoddiad o farn y cyfryngau.
- Ymgysylltu â chyflogeion gan gynnwys ein harolwg staff.
- Ein perfformiad yn erbyn meincnodau cydraddoldeb ac amrywiaeth cydnabyddedig.

Mae'r strategaeth hon yn nodi rhaglen waith uchelgeisiol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom yn yr NMC wneud newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn ymddwyn. Fel sefydliad, byddwn yn gweithio'n galed i gefnogi'r newid hwn mewn diwylliant ac yn darparu'r offer a'r cymorth

ymarferol angenrheidiol i bawb. Ni fydd y broses yn digwydd ar unwaith ond dros y pum mlynedd rydym yn disgwyl i bawb sy'n gweithio yn y sefydliad a gyda ni weld gwahaniaethau amlwg.

Rydym yn hyderus y bydd y nifer fawr o bobl sydd wedi bod mor garedig i roi o'u hamser a'u harbenigedd dros y flwyddyn ddiwethaf i'n helpu i ddatblygu'r strategaeth hon yn parhau i ymgysylltu â ni, ein herio, ac ysgogi ein ffyrdd o feddwl a'n dulliau gweithredu dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn cefnogi safonau ymarfer uchel ymysg nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio - er ein budd ni i gyd.



# Cyfeiriadau

1. <https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2019-06/closing-the-gap-full-report-2019.pdf>
2. King's Fund (2020) Beth yw anghydraddoldebau iechyd?
3. Marmot et al (2020) Cydraddoldeb iechyd yn Lloegr: Adolygiad Marmot 10 mlynedd yn ddiweddarach, y Sefydliad Iechyd <https://www.health.org.uk/funding-and-partnerships/our-partnerships/health-equity-in-england-the-marmot-review-10-years-on>
4. Health4LGBTI Prosiect a ariennir gan yr UE - TASG 1: Astudiaeth o'r radd flaenaf yn canolbwyntio ar yr anghydraddoldebau iechyd sy'n wynebu pobl LGBTI D1.1 Adroddiad Synthesis o'r Radd Flaenaf (SSR)
5. Public Health England (2018) Gwella iechyd a lles menywod lesbiaidd a deurywiol a menywod eraill sy'n cael rhyw gyda menywod
6. NHS (2019) Canlyniadau arolwg staff GIG Lloegr 2019
7. NHS (2020) Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu GIG Lloegr
8. Johnson J, Cameron L, Mitchinson L, Parmar M, Opio-te G, Louch G & Grange A (2019) Ymchwiliad i'r berthynas rhwng bwlio, gwahaniaethu, gorweithio a diogelwch cleifion ymysg nyrsys a bydwagedd: a yw gorweithio yn gyfryngwr? Cyfnodolyn Ymchwil mewn Nyrsio 24(8): 60-619 <https://doi.org/10.1177/1744987119880329>; GIG Lloegr (2018) Cysylltiadau rhwng profiad staff y GIG a bodlonrwydd cleifion: Dadansoddiad o'r arolygon o 2014 a 2015; Viken B, Solum E & Lyberg A (2018) Profiadau gwaith nyrsys a addysgir dramor a diogelwch cleifion – adolygiad systematig o astudiaethau ansoddol. Nursing Open 5(4) <https://doi.org/10.1002/nop2.146>; Maben J, Peccei R, Adams M, Robert G, Richardson A, Murrells T & Morrow E (2012) Archwilio'r berthynas rhwng profiadau cleifion o ofal a dylanwad cymhellant, effaith a lles staff. Rhaglen Cyflawni a Threfnu Gwasanaethau NIHR; Dawson J (2009) A yw profiad staff sy'n gweithio yn y GIG yn gysylltiedig â phrofiad y claf o ofal? Ysgol Fusnes Aston;
9. [https://www.journalofnursingregulation.com/article/S2155-8256\(17\)30127-8/pdf](https://www.journalofnursingregulation.com/article/S2155-8256(17)30127-8/pdf)

10. Kinman G, Teoh K, Harriss A (2020) Iechyd Meddwl a Lles Nyrsys a Bydwagedd yn y Deyrnas Unedig, Cymdeithas Meddygaeth Alwedigaethol
11. Watts N et al (2019) Adroddiad 2019 The Lancet Countdown ar iechyd a'r newid yn yr hinsawdd: sicrhau na chaiff iechyd plentyn a gaiff ei eni heddiw ei ddiffinio gan hinsawdd sy'n newid. The Lancet 394(10211): 1836-1878
12. <https://digital.nhs.uk/data-and-information/national-indicator-library/carbon-dioxide-equivalent-emissions-for-nhs-trusts>
13. <https://www.kingsfund.org.uk/projects/environmental-sustainability-health-and-social-care>
14. <https://www.gov.uk/government/consultations/promoting-professionalism-reforming-regulation>



## Mae'r strategaeth hon yn nodi rhaglen waith uchelgeisiol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom yn yr NMC wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio ac yn ymddwyn.

Byddwn yn gweithio'n galed fel sefydliad i gefnogi'r newid hwn mewn diwylliant ac yn darparu'r adnoddau a'r cymorth ymarferol angenrheidiol i bawb. Ni fydd y broses yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith ond dros y pum mlynedd rydym yn disgwyl i bawb sy'n gweithio yn y sefydliad a gyda ni weld gwahaniaethau amlwg.

Rydym yn hyderus y bydd y nifer fawr o bobl sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd yn hael dros y flwyddyn ddiwethaf i'n helpu i ddatblygu'r strategaeth hon yn parhau i ymgysylltu â ni, ein herio, ac ysgogi ein ffyrdd o feddwl a'n dulliau gweithredu dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn cefnogi safonau ymarfer uchel gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio - er ein budd ni i gyd.



**NMC** Cyngor  
Nyrsio a  
Bydwreigiaeth

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth  
23 Portland Place, London W1B 1PZ

[nmc.org.uk](http://nmc.org.uk) [f](#) nmcuk [t](#) nmcnews